22. DI-DRETH
(stori o'r bymthegfed ganrif)

Gadewch i mi ddweud wrthych chi am ffermwr o'r bymthegfed ganrif. Ei enw yw Jack ac mae'n ŵr o sylwedd. Nid gwerinwr cyffredin mohono ond y mae'n ŵr pwysig a chanddo ddyletswyddau a theitl swyddogol. Gan fod y teitl yn anodd i'w yngan wnawn ni mo'i ddefnyddio. Y cyfan sydd rhaid i ni ei gofio yw beth oedd ei ddyletswyddau cyhoeddus. Jack sy'n gyfrifol am drefnu gwylwyr dros nos, gwarchod carcharorion a chasglu trethi. Ydych chi wedi deall hyn i gyd?

Beth bynnag, pan fyddwn ni'n cyfarfod Jack, nid yw'n gwneud dim o'r pethau hyn. Na. Am unwaith yn ei fywyd gwaith yw'r peth olaf ar ei feddwl. Ers pythefnos y mae Jack wedi bod ar ei wyliau yn ninas Rheims gyda'i wraig, ac maent yn aros yn Nhafarn y Mul Stribedog tros y ffordd i'r Eglwys Gadeiriol. Ac er mawr foddhad i'r dafarnwraig nid ydynt yn ymddangos fel petaent ar frys mawr i ddychwelyd adref. Wel, pam meddech chi, mae ffermwr gweithgar fel Jack mor barod i dreulio'i amser yn hamddena? Ateb – oherwydd fod yr hen Jack yn dathlu. Cwestiwn nesaf. Pam fod Jack yn dathlu? Mae hyn ychydig yn gymhleth, felly gwrandewch yn astud. Yn y bymthegfed ganrif, ceisiodd y Saeson hawlio gorsedd Ffrainc. Harri'r VI oedd brenin y Saeson, ac am gyfnod buont ar warthaf y Ffrancwyr.

Yna, yn annisgwyl, fe ddaeth yna ferch o Ffrances o rywle gan honni fod Duw wedi ei hanfon i hel y Saeson allan o Ffrainc. Er mawr ryfeddod i bawb dechreuodd y Ffrancwyr ennill gan wthio'r Saeson yn ôl ac ar yr 17eg o Orffennaf 1429 coronwyd Siarl VII (Ffrancwr) yn Eglwys Gadeiriol Rheims. A dyma lle daw Jack i'r stori.

Fe gofiwch y ferch a achubodd y Ffrancwyr. Wel, merch i Jack oedd hi! Joan oedd ei henw ac roedd yn ddwy ar bymtheg oed.

Mae Jack yn dathlu'r ffaith fod ei ferch yn arwres genedlaethol. Lle bynnag yr aiff clyw bobl yn siarad amdani. A phan ddont i ddeall pwy yw ef, wel, maent yn hanner ei addoli.

'Sut un oedd y ferch pan oedd hi'n blentyn?' gofynnant. 'Pryd ddechreuodd hi deimlo fod Duw'n ei galw i achub Ffrainc?'

Nawr, nid yw Jack yn gor-boeni am orfod siarad â gwasg y bymthegfed ganrif (fe'i galwn yn 'wasg' oherwydd fod yna lawer o bobl yn gwasgu o amgylch Jack!). Y mae'n hapus i ddweud wrthynt mai merch gyffredin a fu Joan erioed. Iach. Gweithgar. Ac, o hyd, yn ffyddlon i'r Eglwys.

Ond eto y mae rhai cwestiynau y mae'n eu hosgoi. Gwell ganddo beidio datgelu pa mor flin ydoedd pan soniodd Joan am ei galwad am y tro cyntaf. Ni all gofio ai'r tro hwnnw y rhoddodd fonclust iddi ynteu ai'r tro arall hwnnw pan wrthododd Joan briodi'r llencyn yr oedd ef wedi ei ddewis ar ei chyfer. Yr oedd y cyfan yn ddigon i godi cywilydd arno. Nid oedd am gael ei anfarwoli fel y gŵr a fu bron â rhwystro'r ferch rhag achub Ffrainc. Felly mae'n osgoi cwestiynau anodd ac yn diolch i Dduw fod ffydd Joan yn ddigon cryf i'w galluogi i anwybyddu cyngor ei thad.

Ac erbyn hyn y mae Jack yn cael amser gorau ei fywyd. Ond y mae un peth yn ei boeni. A fyddai llwyddiant yn newid cymeriad Joan? Dim ond o hirbell y câi weld ei ferch y dyddiau hyn. Ac y mae'r person ysblennydd ar gefn ei cheffyl yn ymddangos yn hollol wahanol i'r ferch syml mewn gwisg wlân goch a fu'n byw ar ei aelwyd tros y ddwy flynedd ar bymtheg diwethaf. Beth tybed sydd ar ei meddwl? Fydd hi'n meddwl am ei chartref a'i chyfeillion weithiau?

Nawr, yn y dyddiau hynny nid oedd anfon cerdyn post yn arferiad. Ond bu i Joan ddanfon y peth agosaf at hynny. Danfonodd ato gynrychiolydd brenhinol. Canodd hwnnw ei drwmped gan weiddi 'Gwrandewch ... gwrandewch.' Ac yna, wedi cael sylw pawb, y mae'n rhoi neges y brenin iddynt.

'Ar ofyn, ac er anrhydedd y forwyn Joan, i gofféu yr hyn a wnaeth tros holl drigolion Ffrainc yn achub y Frenhiniaeth, fe ddatgan y brenin fod pentrefi Domremy a Greux i gael eu rhyddhau o orfod talu treth hyd byth,' llefodd.

Wrth gwrs, fe gymer ychydig funudau i Jack sylweddoli arwyddocâd y neges. Prin y gallai gredu fod ei ferch wedi gofyn i'r brenin ryddhau pobl ei phentref rhag gorfod talu trethi byth eto! Ac yr oedd Siarl VIII wedi cytuno!

Ychydig wedi hyn, rhaid oedd i Jack ddod adref o'i wyliau. A daw adref i Domremy. Y mae'n dal i ffermio'r tir. Y mae'n parhau i gyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus. Beth oeddynt, dywedwch? Trefnu gwarchodwyr y nos, gwarchod y carcharorion a chasglu trethi. Ond, arhoswch funud. Nid oes angen casglu trethi. Gall Jack ymlacio. Dim mwy o boenydio pentrefwyr i gael eu harian prin, a dim rhagor o waith cyfrif colofnau o ffigyrau cymhleth. Diolch i orchymyn y brenin, câi wneud y cofnod byrraf erioed yn ei lyfr cyfrifon – un gair i nodi'r ddyled a dau air i nodi'r rheswm. Wrth ymyl yr enw Domremy ysgrifenna, 'Dim – Y Forwyn.'

HYD: 5–6 munud. Gall y stori hon weithio fel meim. Ynghyd â'r adroddwr bydd angen rhywun i gyfleu teimladau Jack trwy ystumio corfforol.

NEGES: Yn y Beibl y mae'r gair 'dyled' yn cael ei ddefnyddio'n aml i gyfeirio at bechodau dynol. Rhyddhaodd Duw ni rhag y pechodau hyn trwy waith Iesu.

DARLLEN: Mathew 6: 12; Mathew 18: 25–27; Hebreaid 10: 11–14.

GWYBODAETH YCHWANEGOL:

Ganed Joan o Arc (Jeanne D'Arc) yn 1429, ac fe wnaeth hi wyrdroi cwrs y rhyfel, er i sawl blwyddyn basio cyn cael llwyr wared o'r Saeson o Ffrainc. Daliwyd Joan ei hunan mewn brwydr a chafodd ei llosgi wrth y stanc fel heretic yn 1431. Mewn llys yn 1456 fe'i cafwyd yn ddi-euog o'r troseddau hyn. Ni fu'n rhaid i bentrefi Domremy a Greux dalu trethi am 300 mlynedd, hyd amser y Chwyldro Ffrengig.